OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1075

# Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000

**Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn perthynas â chychod pysgota**

**6.**—(1) At ddibenion gorfodi Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth cyfatebol mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, wedi'i wneud er mwyn gweithredu mesur rheoli'r Gymuned, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig weithredu mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota arall sydd o fewn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru y pwerau a freiniwyd gan baragraffau (2) i (4) o'r Erthygl hwn.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda neu heb bersonau a neilltuwyd i gynorthwyo, a chaiff fynnu bod y cwch yn stopio a gwneud unrhyw beth arall a fyddai'n hwyluso un ai mynd ar fwrdd y cwch neu fynd oddi arni.

(3) Caiff y swyddog fynnu presenoldeb y meistr ac unrhyw berson arall sydd ar y cwch a chaiff wneud archwiliad ac ymholiadau sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol at y diben a nodwyd ym mharagraff (1) o'r Erthygl hwn ac, yn arbennig—

(a) caiff chwilio am bysgod neu offer pysgota ar y cwch a chaiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a chaiff fynnu bod pobl sydd ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwiliad;

(b) caiff fynnu bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn cyflwyno unrhyw ddogfen ynglŷn â'r cwch, ag unrhyw weithrediadau pysgota neu unrhyw weithrediadau ategol iddynt neu â'r personau sydd ar fwrdd y cwch sydd yng ngwarchodaeth neu feddiant y person hwnnw;

(c) at bwrpas canfod a oes tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen a gall fynnu bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol i hwyluso'r chwilio;

(ch) arolygu, copïo a chadw meddiant yn ystod y chwilio, archwilio ac arolygu y darparwyd ar ei gyfer o dan yr Erthygl hwn, o unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir i'r swyddog neu a ddeuir o hyd iddo ar fwrdd y cwch,

(d) heb ragfarn i is-baragraffau (c) a (ch), gall fynnu bod y meistr ac unrhyw berson sydd am y tro yn gyfrifol am y cwch yn cyflwyno unrhyw ddogfennau o'r fath sydd ar system gyfrifiadurol mewn ffurf weladwy a darllenadwy, gan gynnwys mynnu bod unrhyw ddogfen o'r fath yn cael ei chyflwyno mewn ffurf y gellir mynd a hi oddi yno; ac

(dd) os oes gan y swyddog reswm dros amau fod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r cwch, caiff gymryd a chadw unrhyw ddogfen a gyflwynir neu a ddeuir o hyd iddhi ar fwrdd y cwch er mwyn galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn unrhyw achos ynglŷn â'r tramgwydd;

ond nid yw unrhyw beth yn is-baragraff (dd) uchod yn caniatáu cymryd a chadw unrhyw ddogfen y mae'r gyfraith yn mynnu ei bod yn cael ei chario ar fwrdd y cwch, ac eithrio pan fydd y cwch yn cael ei ddal mewn porthladd.

(4) Pan fydd yn ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni, caiff—

(a) fynnu bod meistr y cwch y cyflawnwyd y tramgwydd mewn cysylltiad ag ef yn mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sy'n ymddangos i'r swyddog fel y porthladd cyfleus agosaf, neu chaiff y swyddog wneud hynny ei hun; a

(b) ddal, neu fynnu bod y meistr yn dal, y cwch yn y porthladd;

a phan fydd swyddog o'r fath yn dal, neu'n mynnu bod y cwch yn cael ei ddal, rhaid iddo gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig y bydd, neu fod, angen dal y cwch hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meistr hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.